



Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Meithrinfa Ogwen Cyf.

**Meithrinfa Ogwen
Carneddi Bethesda
Bangor
LL57 3RU**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/12/2019

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Graddau	Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu
Rhagorol	Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Ogwen Cyf yn gweithredu o adeilad preifat ar wahân ym mhentref Rachub, Bethesda yng Ngwynedd. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer uchafswm o 41 o blant. Darperir gofal ar gyfer plant rhwng tri mis ac wyth oed. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg i blant cymwys. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 7:30am a 6:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yr unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb yw Delyth Jones. Mae pob agwedd ar y gwasanaeth hwn yn ddwyieithog ac yn bodloni'r meini prawf ar gyfer 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu Cynnig Gofal Plant 30 awr Llywodraeth Cymru.

Crynodeb

Thema	Gradd
Llesiant	Da
Gofal a Datblygiad	Digonol
Yr Amgylchedd	Da
Arwain a Rheoli	Digonol

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Mae'r staff yn groesawgar ac yn ymateb i anghenion y rhan fwyaf o'r plant. Mae'r amgylcheddau dan do ac awyr agored yn cynnig cyfle i'r plant ddilyn eu diddordebau eu hunain a datblygu eu sgiliau corfforol yn gadarnhaol. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol ond mae angen gwella rhai meysydd.

2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae lloriau newydd wedi cael eu gosod yn nhoiledau'r plant ac yn yr ardal chwarae awyr agored.

3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom hysbysu'r unigolyn cyfrifol bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â feiliau'r staff (rheoliad 28) a chadw cofnodion (rheoliad 30) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno y tro hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

Rydym wedi gwneud yr argymhellion canlynol mewn perthynas â datblygu gwybodaeth y plant am ailgylchu, a hyfforddiant staff.

Crynodeb

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn dda, ac maent yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn mwynhau datblygu eu dysgu drwy chwarae yn effeithiol. Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn hyderus.

Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn cyfathrebu'n hyderus, ac yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ar yr hyn a oedd yn effeithio arnynt. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, gofynnodd y plant am fwy o giwcymbr neu laeth a rhoddwyd hwn iddynt yn ddigwestiwn. Roedd y plant yn fodlon dod atom i ofyn ein henwau, ac yn dangos chwilfrydedd a diddordeb yn y rhesymau yr oeddem yn teipio ar gyfrifiadur wrth eu gwyllo'n bwyta. Gwnaeth un plentyn godi ei ffon bara gan ddweud wrthym a'r staff ei bod yn 'fawr', wrth i blentyn arall fwyta ei ffon bara ei hun, gan ddweud ei bod bellach yn 'fach'. Cafodd y plant drafodaeth fywiog ar ôl amser stori, gan ddangos pa rai o'r propiau yr oeddent wedi'u hoffi fwyaf i'r aelod o'r staff.

Roedd y plant wedi ymgartrefu, ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w teuluoedd. Roeddent yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol megis gwisgo eu ffedogau cyn cinio a golchi eu dwylo ar ôl gweithgaredd paentio. Cafodd y plant eu canmol gydag iaith gadarnhaol am eu hymdrechion, a chawsant eu cysuro pan oedd angen. Er enghraifft, ar ôl deffro, cafodd y babanod eu cofleidio a siaradwyd â nhw'n dyner cyn iddynt gael eu cinio. Gwnaeth hyn wneud iddynt deimlo'n hapus ac yn gyfforddus.

Roedd y plant yn rheoli eu rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn cydweithio'n dda. Er enghraifft, yn ystod sesiwn yoga / ymwybyddiaeth ofalgar, roedd y plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n dda, ac yn dangos i'w ffrindiau beth i'w wneud os nad oeddent yn sicr. Wrth dacluso eu teganau, roedd y plant yn parchu'r cyfarpar ac adnoddau ac yn eu storio'n ofalus. Roeddent yn mwynhau achlysur cymdeithasol amser bwyd. Roeddent yn gwrtais ac yn defnyddio moesau da.

Roedd y plant yn cael cyfleoedd diddorol sy'n addas ar gyfer eu hoedran a oedd yn hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, gwnaeth plentyn ganolbwyntio'n dda wrth iddo ymarfer ei sgiliau echddygol manwl drwy godi dŵr â gliter o un hambwrdd i hambwrdd arall gan ddefnyddio llwy bren. Gwnaeth y plant ymarfer defnyddio eu synhwyrau wrth osod ffigurau gweadog o wahanol siapiau ar fwrdd stori cyffyrddadwy yn ofalus. Rhoddodd y plant iau eu dwylo mewn amrywiaeth o baentiau lliwgar yn hyderus i greu eu gwaith celf eu hunain yn rhydd. Gwnaeth y plant esgus eu bod yn cerdded drwy goedwig i ddod o hyd i'r creaduriaid tegan meddal cudd, gan wneud sylwadau ar yr hyn roeddent wedi ei ganfod. Roedd hyn yn datblygu eu sgiliau iaith a dychymyg yn effeithiol.

Roedd y plant yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda. Gwnaethant helpu i baratoi'r byrddau ar gyfer amseroedd bwyd, ond cafodd ychydig o'u bwyd ei weini iddynt amser byrbryd, er bod ganddynt y gallu i wneud hynny. Roedd y plant iau yn cael eu hannog a'u cefnogi i fwydo a gwneud eu dewisiadau eu hunain. Roedd y plant yn archwilio eu hardal chwarae yn rhydd. Er enghraifft, dangosodd un plentyn i ni sut roedd yn gwthio ei ddoli yn y pram wrth iddo gerdded o amgylch yn casglu amrywiaeth o bropiau i'w rhoi yn yr ardal fasged. Roedd plant eraill yn mwynhau dangos i ni sut roeddent yn golchi eu dwylo ac yn rhoi'r tywelion papur yn y bin.

2. Gofal a Datblygiad

Digonol

Crynodeb

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n briodol. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n addas. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn datblygu dysgu'r plant drwy chwarae yn gadarnhaol ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn amserol.

Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn deall polisiâu a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn eu rhoi ar waith yn addas. Roeddent wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf, ac roeddent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon ganddynt. Fodd bynnag, nid oedd pob pryder a wnaed wedi'i gofnodi'n addas. Gwnaethom drafod hyn â'r unigolyn cyfrifol, a aeth i'r afael â'r mater yn briodol. Roedd y staff yn defnyddio dulliau boddhaol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, er enghraifft, drwy annog bwyta'n iach a dilyn gweithdrefnau hylendid addas. Roedd y gweithdrefnau newid cewynnau yn unol â chanllawiau rheoli heintiau presennol, ac roedd y staff yn annog y plant i olchi eu dwylo ar adegau priodol.

Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf addas, ac wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. Roeddent yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau ac yn llenwi ffurflenni rhoi meddyginiaeth, ond nid oedd pob un o'r rhain wedi cael eu dyddio na'u llofnodi gan y staff a'r rhieni. Roeddent yn cynnal ymarferion tân ar adegau priodol, ac yn cofnodi'r canlyniad yn addas.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar, gan ddangos hoffter gwirioneddol er mwyn tawelu meddyliau'r plant iau. Nid oedd pob aelod o'r staff yn hyderus ynghylch dulliau a strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol. Dywedodd y staff wrthym yr hoffent fynychu hyfforddiant er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u hymarfer. Roeddent yn canmol y plant gydag iaith gadarnhaol, ac yn eu hannog i ddefnyddio moesau da'n briodol.

Roedd y staff wedi trefnu ardaloedd dysgu penodol yn addas, ac roedd hyn yn annog y plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Roeddent yn tracio cynnydd unigol y plant yn dda, gan ddefnyddio'r sylwadau hyn i lywio'r gwaith o gynllunio gweithgareddau. Roedd rhai aelodau o'r staff yn dangos sgiliau eithriadol o ran hwyluso gweithgareddau â phwyslais penodol megis yoga, ymwybyddiaeth ofalgar, a gweithgareddau iaith a rhifedd. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys y plant yn effeithiol, ac yn ysgogi eu chwilfrydedd a'u dysgu drwy ddull creadigol ac arloesol. Roedd y staff yn cynnwys y plant yn amser stori, gan eu hannog i ofyn ac ateb cwestiynau er mwyn datblygu eu sgiliau iaith yn briodol. Roedd y staff yn cynnig rhai cyfleoedd i'r plant ddysgu am eu cymdeithas ehangach ac ailgylchu mewn

ffordd addas, ond gellid cynnig mwy o gyfleoedd yn ystod amseroedd bwyd i'r plant ailgylchu eu gwastraff bwyd eu hunain. Roeddent yn ymateb i anghenion y plant mewn ffordd amserol.

3. Yr Amgylchedd

Da

Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod dodrefn, cyfarpar a theganau ar gael i'r plant sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu, ac mae'r rhain o ansawdd da.

Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Wrth i ni gyrraedd, gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr, ac roedd system electronig ar waith er mwyn cael mynediad i'r ardal chwarae. Roedd yr adnodd archwilio rheoli heintiau wedi cael ei ddefnyddio, ac roedd trefniadau glanhau rheolaidd ar waith, gan ddangos bod arferion hylendid da wedi cael eu rhoi ar waith.

Roedd y gwasanaeth wedi cael y sgôr uchaf gan yr asiantaeth safonau bwyd. Roedd yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol hefyd. Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risg tân effeithiol, a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roeddent wedi sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant, ac yn eu goruchwyllo'n dda er mwyn sicrhau diogelwch y plant.

Roedd y dodrefn, teganau a chyfarpar yn briodol ar gyfer cam a datblygiad y plant. Roedd yr arweinwyr yn defnyddio'r amgylchedd yn dda i ddiwallu anghenion y plant. Er enghraifft, roedd pob plentyn yn cael lle unigol i roi ei eitemau personol, a sedd ddynodedig ar gyfer prydau bwyd. Roedd yr arweinwyr wedi arddangos gwaith celf â thema'r plant a ffotograffau ohonynt yn gwneud gweithgareddau mewn ffordd ddeniadol. Roedd hyn yn eu helpu i greu ymdeimlad o berthyn. Roedd amrywiaeth dda o weithgareddau'n cael eu cynnig, ac roedd y safle'n addas i blant y gall fod ganddynt anawsterau symudedd.

Roedd yr ardal awyr agored wedi'i threfnu'n dda, ac roedd rhan ohoni wedi cael ei hadnewyddu â llawr newydd gan greu arwyneb gwell i'r plant chwarae arno. Roeddent hefyd wedi prynu gwesty pryfed pren er mwyn annog y plant i ddatblygu eu chwylfrydedd am fywyd gwylt a'r byd naturiol o'u cwmpas. Roedd cyfleusterau da i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac ar gyfer cynnal sgysiau cyfrinachol mewn preifatrwydd. Roedd y toiledau dan do hefyd wedi cael eu hadnewyddu gyda lloriau newydd, a oedd yn cael eu cadw'n lân. Roedd yr arweinwyr wedi trefnu hysbysfwrdd sy'n llawn gwybodaeth, ac ardal wybodaeth ar gyfer teuluoedd. Roedd hyn yn helpu'r rhieni i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth, ac yn eu cyfeirio at yr asiantaethau perthnasol yn briodol.

Roedd dewis amrywiol o deganau, ac roedd rhai ohonynt yn adlewyrchu ein cymdeithas ehangach, megis doliau a ffigurau byd bach. Roedd y gornel gartref wedi'i threfnu'n dda,

gydag amrywiaeth o bropiau sy'n berthnasol i'r thema, ond roedd prinder eitemau cartref masnachol wedi'u hailgylchu er mwyn helpu'r plant i ddatblygu eu dychymyg. Fodd bynnag, cafodd bocsys wedi'u hailgylchu eu defnyddio mewn gweithgaredd modelu gwastraff gyda'r plant i wneud eu coeden Nadolig eu hunain, gan eu helpu i ddatblygu eu sgiliau dylunio ac ymarfer defnyddio eu synhwyrâu'n effeithiol.

Roedd yr arweinwyr wedi trefnu corneli crefftau a chorneli cyfforddus yn dda, gan annog y plant i fod yn greadigol ac i gael cyfle i ymlacio a mwynhau amser tawel gyda'u ffrindiau. Roedd llyfrau'n cael eu harddangos mewn ffordd ddeniadol, gan annog y plant i'w darllen.

4. Arwain a Rheoli

Digonol

Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol. Mae ganddynt system i werthuso'r gwasanaeth yn dda. Caiff y staff a'r adnoddau eu rheoli'n addas, ond nid yw pob maes yn bodloni'r gofynion, ac mae angen gwneud gwelliannau.

Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol, a oedd yn rhoi darlun cywir o'r hyn yr oedd y gwasanaeth yn ei gynnig. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ac roedd y rhain wedi'u gweithredu'n addas. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar, ac roedd y staff wedi cael gwybod am unrhyw newidiadau. Roedd gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg ac roeddent yn gallu dangos eu bod yn gweithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Roedd gan yr arweinwyr system effeithiol ar waith ar gyfer cael barn y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd, er mwyn nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn y mae angen ei wella a'r camau y mae angen eu cymryd. Roeddent wedi cwblhau adolygiad cynhwysfawr yn adolygu ansawdd y gofal ym mis Mehefin 2019. Roedd adborth gan y rhieni, y staff a'r plant yn gadarnhaol ar y cyfan. Gwnaeth yr arweinwyr drafod eu nod o ddatblygu dysgu'r plant am eu cymdeithas ehangach yn y dyfodol drwy baentio arwyddion cyfarch amlddiwylliannol ar y wal, ac o ailaddurno waliau mewnol yr amgylchedd drwy eu paentio mewn lliwiau niwtral er mwyn creu effaith gynnes a llonyddol ar gyfer y plant.

Nid oedd cymwysterau'r staff yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol o ran sicrhau bod cymhwyster perthnasol sy'n briodol ar gyfer eu rôl gan o leiaf 80% o'r staff nad ydynt yn oruchwylwyr. Fodd bynnag, ni chafodd hyn effaith andwyol ar les y plant ar ddiwrnod ein hymweliad, gan fod yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn goruchwyllo'r plant yn dda. Gwnaethom fwrw golwg dros ffeiliau dau aelod o'r staff, ond nid oedd yr holl wybodaeth sy'n ofynnol wedi cael ei chasglu er mwyn bodloni gofynion. Cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol fod gwiriadau cofnodion troseddol manwl y staff yn gyfredol, a dywedodd wrthym ei bod yn fodlon, wedi gweld eu tystysgrifau. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym nad oedd tystysgrif cofnod troseddol manwl un aelod newydd o'r staff wedi cyrraedd eto, a chadarnhaodd nad oedd yr aelod hwn o'r staff yn cael ei adael gyda'r plant heb oruchwyliaeth. Cafodd hyn ei adlewyrchu'n gywir ar ddiwrnod ein hymweliad.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr arweinwyr, a'u bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu goruchwyllo a'u harfarnu, a bod hyn yn cael ei gofnodi. Gwnaethom fwrw golwg dros gofnodion unigol dau blentyn, ond nid oedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod yr holl

wybodaeth sy'n berthnasol i ddiwallu anghenion unigol y plant wedi cael ei chasglu gan y rhieni / gofalwyr er mwyn bodloni gofynion yn llawn.

Gwnaethom siarad â'r rhieni, a ddywedodd wrthym eu bod yn hapus â'r gwasanaeth gan fod eu plant wedi ymgartrefu, ac nad oedd unrhyw broblemau wedi codi. Cawsom ymateb i'n holiaduron i rieni / gofalwyr ac roedd hwn yn gadarnhaol. Ni welsom dystiolaeth ffotograffig o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned, ond dywedodd yr arweinwyr a'r staff wrthym eu bod yn mynd â'r plant ar ymweliadau i'r parc lleol er mwyn datblygu eu hymwybyddiaeth o'u hamgylchedd lleol.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

4.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai'r arweinwyr ystyried y canlynol:

- cynnig cyfleoedd gwerth chweil i'r plant ddatblygu eu gwybodaeth am ailgylchu
- cynnig cyfleoedd i'r staff fynychu hyfforddiant ar reoli ymddygiad cadarnhaol er mwyn cael gwybodaeth am strategaethau a dulliau presennol i ddatblygu eu hymarfer.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ddydd Iau 5 Rhagfyr 2019 rhwng 10:05am a 2:05pm a rhwng 2:30pm a 6:35pm.

Gwnaethom y canlynol:

- edrych ar sampl o ddogfennau, polisïau, ffeiliau dau aelod o'r staff a chofnodion unigol dau blentyn;
- arsylwi ar ymarfer a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio adnodd Fframwaith Arsylywi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI2) er mwyn nodi tystiolaeth o'r ffordd y mae'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir, y teganau a'r adnoddau;
- siarad â'r plant, y staff, yr unigolyn cyfrifol (sef y person â chyfrifoldeb hefyd), a dau riant / gofalwr;
- rhoi adborth i'r unigolyn cyfrifol;
- hefyd, cawsom un holiadur AGC gan riant / gofalwr ar ôl diwrnod ein hymweliad a oedd yn gadarnhaol.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Unigolyn Cyfrifol	Delyth Jones
Person â chyfrifoldeb	Delyth Jones
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	41
Ystod oedran y plant	3 mis hyd at 8 oed.
Oriau agor	Dydd Llun i ddydd Gwener, 7:30am – 6:00pm.
Iaith weithredol y gwasanaeth	Cymraeg
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	19 Rhagfyr 2017
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	5 Rhagfyr 2019
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Ydy
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.
Gwybodaeth Ychwanegol:	

Dyddiad Cyhoeddi 05/03/2020